Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 315 – 21 Hydref 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2008.

1. Cam diweddaraf adolygiad Ofcom: ymateb S4C

Nododd y Cadeirydd fod Ofcom bellach wedi cyhoeddi cymal 2 eu hadolygiad o ddarlledu PSB. Mae angen cyflwyno ymatebion erbyn Rhagfyr 4ydd.

Mae Alun Ffred Jones AC wedi sefydlu gr□p gorchwyl a gorffen o dan gadeiryddiaeth Huw Jones i ystyried materion yn ymwneud â darlledu PSB trwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru.

2. Camau Nesaf y Gwasanaethau Plant

Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur yn nodi'r gwaith sydd angen ei gyflawni ar gyfer Cymal 2.

3. Digidol/DSO

Cyflwynodd Huw Rossiter Gynllun Cyfathrebu S4C ar gyfer y Newid i Ddigidol.

4. Cymeradwyo Cyllideb 2009 / Cynllun ariannol 5 mlynedd

Cyflwynodd Kathryn Morris y gyllideb 5 mlynedd. Diolchwyd iddi, a nodwyd bod yr adroddiad a'r gyllideb yn dangos gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol S4C yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Cymeradwywyd y gyllideb.

5. Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2009

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Gynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2009. Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol.

6. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd fod gwasanaeth Gaeleg newydd yr Alban BBC Alba wedi lansio ar 19 Medi. Roedd wedi ysgrifennu at Alastair Morrison, Cadeirydd MG Alba, Ken MacQuarrie, Rheolwr BBC Alban ac eraill i ddymuno pob llwyddiant iddynt gyda'r fenter. Roedd y Prif Weithredwr wedi mynychu lansiad y sianel yng Nghaeredin.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd fod S4C wedi cael 6 enwebiad ar gyfer gwobrau Promax eleni.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod Ofcom bellach wedi dyfarnu gofod ar Blethiad B i gonsortiwm Channel 4, S4C a Teletext. Roedd hyn yn newyddion da iawn i S4C a fydd yn sicrhau y gall S4C ddarparu fersiwn Manylder Uwch o S4C Digidol ar blatfform Freeview yn y dyfodol.

8. Polisi Masnachu Teg

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd y Polisi Masnachu Teg diwygiedig. Cymeradwywyd y Polisi Masnachu Teg.

9. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2008
- Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu S4C ar wahaniaethu ar sail anabledd ar gyfer 2008
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg